Gwirionedd

Darllen: Ioan 18:38

Dychmygwch yr olygfa. Pontius Pilat, y rhaglaw, yn ei holl rwysg yn wynebu Iesu. Dowch i ni olrhain cefndir y rhaglaw. Ef yw cynrychiolydd Rhufain yn Jwdea. Ar ôl marwolaeth Herod Fawr yn 4 CC, rhannwyd y wlad rhwng ei feibion, Herod Antipas yng Ngalilea, Herod Philip a oedd yn gyfrifol am Bantanea, Auranitis a Trachonitis, ac Archelaus a oedd yn llywodraethu Idumea, Jwdea a Samaria. Disodlwyd Archelaus gan Rufain yn y flwyddyn 6 OC, a rhoddwyd prociwrator yn ei le. Ac yn 26 CC, wedi olyniaeth o bedwar prociwrator, sefydlwyd Pilat; a bu hwnnw yn ei swydd hyd 36 CC. Ond methiant llwyr oedd Pilat fel llywodraethwr. O'r cychwyn cyntaf, doedd ganddo fawr o gydymdeimlad â'r Iddewon. Deirgwaith fe lwyddodd i'w cynddeiriogi, ac yn 35 CC bu gwrthryfel yn Samaria, talaith a fu'n gefnogol i Rufain, ac ymosododd Pilat a'i filwyr yn ddidrugaredd ar y brodorion. Gorchmynnwyd Pilat i ddychwelyd i Rufain gan Tiberius, yr ymerawdwr, ond bu farw Tiberius cyn iddo gyrraedd yno. Beth ddigwyddodd i Pilat? Ni wyddom, ond fe lithrodd oddi ar lwyfan hanes.

Roedd Pilat wedi ei gornelu. Roedd eisoes wedi tynnu blewyn o drwyn yr Iddewon. Ac felly mae'n cael ei orfodi mewn ffordd i groeshoelio Iesu – os wyt ti'n gadael y dyn hwn yn rhydd dwyt ti ddim yn ffrind i Gesar! Gwyddai nad oedd Iesu'n ddyn drwg ac roedd yn awyddus i'w helpu, ond roedd wedi'i rwydo gan ei orffennol. Ceisiodd roi'r cyfrifoldeb ar yr Iddewon; ceisiodd adfer hen arferiad o ryddhau carcharor yr ŵyl; a cheisiodd gyfaddawdu trwy fflangellu Iesu. Ond collodd y dydd, a throsglwyddwyd Iesu i ddwylo'r dyrfa am nad oedd Pilat yn ddigon dewr i wneud y penderfyniad cywir. Mae Pilat yn ddyn y gallwn i gyd gydymdeimlo ag ef. Roedd yn awyddus i ryddhau Iesu, ac eto roedd ei swydd a'i ddyfodol yn y fantol. Roedd wedi pechu'r Iddewon deirgwaith yn barod, ac yn gwybod y byddai ar ben arno pe clywai Cesar un gair bach drwg arall amdano.

Ond cyn i ni gondemnio Pilat yn llwyr, mae un nodwedd fechan o'i gymeriad y dylem edrych arni. Pan ofynnodd Pilat i Iesu, 'Yr wyt ti yn frenin, ynteu?, ateb Iesu oedd, 'Er mwyn hyn yr wyf fi wedi cael fy ngeni, ac er mwyn hyn y deuthum i'r byd, i dystiolaethu i'r gwirionedd. Y mae pawb sy'n perthyn i'r gwirionedd yn gwrando ar fy llais i'. Roedd Pilat yn awyddus i wybod mwy, a gofynnodd, 'Beth yw gwirionedd?' (Ioan 18:37-38). Mae rhai'n awgrymu fod Pilat wedi gofyn hyn mewn ffordd gellweirus, ffwrdd-â-hi, er mwyn tynnu arno. Mae eraill yn awgrymu nad oedd Pilat erbyn hyn yn malio fawr ddim am Iesu, ac mai taflu'r cwestiwn i'r gwynt a wna. Ond mae yna fwy na hynny i gwestiwn Pilat. Yng ngolwg y byd, roedd Pilat yn ŵr hynod freintiedig a llwyddiannus. Roedd Tiberius wedi ymddiried iddo dalaith Jwdea, talaith anodd iawn i'w llywodraethu. Roedd ganddo balas ysblennydd yng Nghesarea, ar lan Môr y Canoldir, a phalas arall yn Jerwsalem. Ac eto roedd rhywbeth ar goll yn ei fywyd. Wrth wynebu'r Galilead hwn a oedd yn destun gwawd a dirmyg, teimlai Pilat fod ynddo ryw wirionedd a oedd yn parhau'n ddirgelwch. Roedd mewn safle yn awr i ddarganfod mwy am y dirgelwch hwn. A'r diwrnod hwnnw y daeth Iesu i'w fywyd fe sylweddolodd Pilat am y tro cyntaf cymaint yr oedd wedi ei golli. Pwy a ŵyr nad oedd Pilat, o fod yng nghwmni Iesu, wedi gweld a theimlo'r gwirionedd. Ond doedd ganddo mo'r dewrder i sefyll ac ochri gydag Iesu. Ac am hynny fe gollodd ei gyfle am byth.

Myfyrdod pellach:

Beth sydd gan gymeriad Pilat i'w ddweud wrthyn ni heddiw?

Sut ydych chi'n ymateb i gwestiwn Pilat?